

Tynnu meinwe annormal o wal y coluddyn isaf drwy ddefnyddio endosgop a chyllell wedi'i phoethi'n drydanol

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio endosgop a chyllell wedi'i phoethi'n drydanol yn y GIG i drin pobl ag abnormaleddau yn wal y coluddyn. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio abnormaleddau ar wal y coluddyn na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai

Gwybodaeth am arweiniad Techlechydd NICE 212

cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Er bod tystiolaeth i ddweud bod y driniaeth hon yn gweithio, erys ansicrwydd am ei diogelwch a pha mor dda y mae'n gweithio i wella goroesiad cleifion sydd â chanser y colon a'r rhefr (coluddyn). Os yw meddyg am ddefnyddio'r driniaeth hon, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â risgiau posibl y driniaeth yn enwedig y perygl o waedu a thorri'r coluddyn. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn anodd ac mai dim ond gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant arbennig a ddylai ei chyflawni. Dylai llawfeddyg y colon a'r rhefr (coluddyn) (ac, os yw'n bosibl, endoscopydd) sydd â phrofiad yn y dechneg hon nodi cleifion sy'n addas i gael y driniaeth.

Mae NICE wedi annog gwaith ymchwil pellach ar y driniaeth hon ac efallai y bydd yn adolygu'r driniaeth os bydd rhagor o dystiolaeth ar gael.

*Efallai nad hon fydd
yr unig driniaeth
bosibl ar gyfer
abnormaleddau yn
wal y coluddyn.
Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch
p'un a yw'n addas i
chi a pha opsiynau
triniaeth eraill sydd
ar gael.*

Tynnu meinwe annormal o wal y coluddyn isaf drwy ddefnyddio endosgop a chyllell wedi'i phoethi'n drydanol

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'dyraniad isfwcosaidd endosgopig o friwiau gastro-berfeddol isaf'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Gall abnormaleddau, neu friwiau, yn wal y coluddyn fod yn ganseraidd neu â risg uchel o fynd yn ganseraidd, neu gallant fod yn ddiniwed (anfalaen). Mae triniaeth fel arfer yn golygu tynnu'r briwiau, ynghyd ag ardal fach o feinwe o amgylch y briw. Yr enw meddygol am hyn yw 'echdoriad cyflawn'. Os na chanfyddir meinwe annormal rhwng y tiwmor ac ochr y feinwe a dynnir, gelwir hyn yn 'ffin glir'.

Caiff y llawdriniaeth hon ei chynnal gyda'r claf wedi'i lonyddu neu o dan anesthetig cyffredinol. Rhoddir camera hir a elwir yn endosgop neu golonosgop i mewn drwy'r anws i weld y rhan o wal y coluddyn yr effeithiwyd arni. Chwistrellir wal y coluddyn â hylif er mwyn codi a gwahanu'r briw o haenau dyfnach y coluddyn, a gosodir cyllell arbennig wedi'i phoethi'n drydanol er mwyn tynnu'r briw y gellir ei weld mewn un darn. Nod y driniaeth yw helpu i osgoi'r angen am llawdriniaeth agored ac i gael y briw cyfan fel sampl unigol o safon dda er mwyn ei archwilio o dan ficrosgop.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig y driniaeth hon i chi dylai ddweud wrthyfch fod NICE wedi penderfynu, er bod y driniaeth yn gweithio, bod amheuon ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i chi gael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o chwith?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras isod o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar naw astudiaeth ac adolygiad o 14 o astudiaethau eraill o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn adolygiad o 14 o astudiaethau yn cynnwys 1314 o gleifion, cafodd 85% o friwiau coluddyn eu tynnu mewn un darn yn llwyddiannus, a chafwyd 'gwelliant llwyr' (ffiniau clir) mewn 75% (ni nodwyd hyd y cyfnod dilynol). Nododd dwy astudiaeth bellach o 42 a 35 o gleifion y cafodd y briwiau eu tynnu'n gyflawn mewn un darn â ffiniau clir mewn 31 a 22 o gleifion, yn y drefn honno.

Mewn astudiaeth yn cynnwys 536 o friwiau, roedd y driniaeth yn fwy llwyddiannus am dynnu briwiau mewn un darn na naill ai fersiwn 'wedi'i symleiddio' o'r driniaeth sy'n defnyddio gwifren dorri (magl) neu driniaeth a elwir yn 'echdorri mwcosaidd endosgopig' (triniaeth debyg sydd fel arfer yn golygu tynnu'r briw mewn sawl darn). Y cyfraddau llwyddiant oedd 463 allan o 468, 40 allan o 44 ac 20 allan o 24 o friwiau, yn y drefn honno.

Mewn dwy astudiaeth o 400 a 278 o gleifion (405 a 292 o friwiau), cafodd 352 a 263 o friwiau eu tynnu mewn un darn, yn y drefn honno. Yn yr ail astudiaeth, tynnwyd 44 o friwiau â ffiniau clir. Yn yr astudiaeth hon, a ddilynodd y cleifion am 36 mis, datblygodd un claf o'r grŵp na thynnwyd ei friwiau mewn un darn friw canseraidd pellach yn wal y coluddyn. Cafodd y canser ei dynnu'n llwyddiannus wedyn.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai'r

Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 212

ffactorau llwyddiant yw'r briw yn cael ei dynnu'n gyflawn mewn un darn, y briw yn cael ei dynnu'n gyfan â ffiniau clir, y gyfradd wella ac osgoi gorfod tynnu adrannau o'r coluddyn ei hun yn hytrach na dim ond rhan o'r wal.

Risgiau a phroblemau posibl

Nodwyd bod twll yng ngholuddyn naw claf yn yr astudiaeth o 536 o friwiau. Cafodd saith o'r cleifion hyn eu trin gan y driniaeth a chafodd dau eu trin gan fersiwn 'wedi'i symleiddio' o'r driniaeth. Ni chafodd yr un o'r cleifion a gafodd 'echdoriad mwcosaidd endosgopig' yn yr un astudiaeth dwll yn y coluddyn. Mewn dwy astudiaeth o 405 a 186 o gleifion, nodwyd twll yn y coluddyn mewn cyfanswm o 26 o friwiau. O'r rhain, canfuwyd 25 yn ystod y driniaeth, a chanfuwyd un ddau ddiwrnod yn ddiweddarach. Roedd angen llawdriniaeth ar ddau o'r tyllau hyn i'w cau.

Mewn astudiaeth o 186 o gleifion, cafodd dau waedu rhefrol yr oedd angen triniaeth endosgopig arnynt ar frys i atal y gwaedu. Cafodd y naill waedu ar ddiwrnod y driniaeth a'r llall 10 diwrnod yn ddiweddarach. Disgrifiodd adroddiad o un claf a gafodd ei drin â dyraniad endosgopig rwystr yn y coluddyn a ddatblygodd 18 awr ar ôl y driniaeth (cafodd ei drin gan hylifau drwy beiriant diferu a lleihau'r pwysedd ar y coluddyn gan ddefnyddio endosgop).

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gallai ymyrryd â'r briwiau achosi i friw canseraidd gwelladwy ymledu drwy dwll a datblygu'n anwelladwy o bosibl.

Rhagor o wybodaeth am friwiau'r coluddyn

Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion holl ganllawiau NICE ar friwiau'r coluddyn, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk/aboutguidance

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r canllawiau'n berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'dyraniad isfwcosaidd endosgopig o friwiau gastro-berfeddol isaf'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn sydd wedi'u hanelu at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/HTG212

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8116-8

N2169 1P Mar 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.